**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

# Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2011–2012

Rhagfyr 2010

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae copi electronig o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8597
Ffacs: 029 2089 8021
e-bost: Community.Culture.Comm@wales.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

# Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2011–2012

Rhagfyr 2010

**Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant**
Prif swyddogaeth y pwyllgorau craffu yw archwilio gwariant, gweinyddiaeth a pholisi'r Llywodraeth a'r cyrff cyhoeddus cysylltiedig sydd o fewn eu cylch gwaith.

Mae cylch gwaith y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant yn cynnwys:
- tai;
- diogelwch cymunedol;
- cynhwysiant cymunedol, gan gynnwys Cymunedau yn Gyntaf a'r Cynllun Gofodol;
- Y Gymraeg, chwaraeon a diwylliant.

**Pwerau**
Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26.6.07 fel un o bwyllgorau craffu'r Cynulliad. Nodir ei bwerau yn Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a Rheol Sefydlog 12 yn arbennig. Ceir y rhain yn **www.cynulliadcymru.org**

**Aelodau'r Pwyllgor**



**Sandy Mewies (Cadeirydd)**
Delyn
Llafur



**Mohammad Asghar**
Dwyrain De Cymru
Ceidwadwyr Cymreig



**Eleanor Burnham**
Gogledd Cymru
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru



**Alun Davies**
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Llafur



**Mark Isherwood**
Gogledd Cymru
Ceidwadwyr Cymreig



**Bethan Jenkins**
Gorllewin De Cymru
Plaid Cymru



**Dai Lloyd**
Gorllewin De Cymru
Plaid Cymru



**Lynne Neagle**
Tor-faen
Llafur



**Joyce Watson**
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Llafur

# Cynnwys

**Argymhellion y Pwyllgor** .......... **5**

**Cefndir** .......... **6**

**1. Materion a godwyd gyda'r Dirprwy Weinidog dros Dai** .......... **7**

Rhagor o wybodaeth i'w darparu gan y Dirprwy Weinidog dros Dai .. 8

Materion sy'n peri pryder penodol i'r Aelodau, a gododd yn eu sesiwn craffu ar waith y Dirprwy Weinidog dros Dai .......... 8

**2. Materion a godwyd gyda'r Gweinidog dros Dreftadaeth** .......... **11**

Rhagor o wybodaeth i'w darparu gan y Gweinidog dros Dreftadaeth .......... 13

Materion sy'n peri pryder penodol i Aelodau, a gododd yn eu sesiwn craffu ar waith y Gweinidog dros Dreftadaeth .......... 13

**3. Materion a godwyd gyda'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol** .......... **23**

Materion sy'n peri pryder penodol i'r Aelodau, a gododd yn eu sesiwn craffu ar waith y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol .......... 25

**Tystion** .......... **27**

**Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig** .......... **28**

## Argymhellion y Pwyllgor

Mae argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru i'w gweld isod, yn y drefn maent yn ymddangos yn yr adroddiad. Ewch i'r tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth a'r casgliadau sy'n cyd-fynd â'r argymhellion:

**Argymhelliad 1:** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, wrth gynnal deialog â'r cyrff y mae'n eu noddi ynghylch y trefniadau cyllido posibl yn y dyfodol, yn sicrhau ei fod yn gallu nodi amcangyfrifon dangosol ar gyfer canlyniadau posibl toriadau neu gynnydd yn y cyllid ar gyfer y cyrff hynny. (Tudalen 14)

**Argymhelliad 2:** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod gostyngiadau yn y cyllid ar gyfer cleientiaid Cyngor Celfyddydau Cymru'n sy'n cael cyllid refeniw yn cael eu cyfyngu i tua 4 y cant dros gyfnod o dair blynedd, fel y nodwyd gan y Gweinidog dros Dreftadaeth. (Tudalen 17)

**Argymhelliad 3:** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda'i phartneriaid (fel awdurdodau lleol a Chyngor Celfyddydau Cymru) i'w galluogi i ganfod yr ardaloedd daearyddol yng Nghymru lle mae mynediad pobl at weithgareddau celfyddydol a diwylliannol drwy ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn arbennig o gyfyngedig. (Tudalen 19)

**Argymhelliad 4:** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru roi disgrifiad clir o'r costau a ddisgwylir ar gyfer sefydlu swydd Comisiynydd y Gymraeg. (Tudalen 21)

## Cefndir

1. Yn unol â Rheol Sefydlog 27.3, trafododd y Pwyllgor gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2011-12 yn ei gyfarfod ar 14 Hydref 2009, pan graffodd ar waith:

- Jocelyn Davies AC, y Dirprwy Weinidog dros Dai
- Alun Ffred Jones AC, y Gweinidog dros Dreftadaeth
- Carl Sargeant AC, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

2. Darparodd y Gweinidogion dystiolaeth ysgrifenedig hefyd, y gellir ei gweld ar wefan y Pwyllgor yn: http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-ccc-home/bus-committees-third-ccc-agendas.htm

3. I ddilyn, ceir adroddiad byr ar ystyriaethau'r Pwyllgor o'r dystiolaeth, a'i argymhellion ar sail y dystiolaeth honno.

4. Wrth ystyried cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, nododd y Pwyllgor fod yr arian ar gyfer y gyllideb gyfan wedi gostwng yn sylweddol, o ganlyniad i benderfyniadau gan Lywodraeth y DU. Felly, mae'r Pwyllgor o'r farn bod y penderfyniadau ar y gyllideb wedi'u gwneud gyda'r bwriad o ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl ar gyfer pobl Cymru, o fewn y cyfyngiadau ariannol y mae Llywodraeth Cymru'n eu hwynebu.

# 1. Materion a godwyd gyda'r Dirprwy Weinidog dros Dai

5. Wrth graffu ar waith y Dirprwy Weinidog, gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad o'r materion a ganlyn a rhagor o fanylion yn eu cylch:

a) Y camau a gymerodd i nodi'r blaenoriaethau o fewn ei hadran a fyddai'n llywio'r penderfyniadau ar ddyranu'r gyllideb;
b) Sut mae'n bwriadu nodi a mesur effeithiolrwydd a chanlyniadau ei blaenoriaethau strategol, ac felly effeithiolrwydd y dyraniadau a wnaeth yn y gyllideb sy'n gydnaws â'r blaenoriaethau hyn;
c) Eglurhad o sut y dyranwyd yr arian i'r 'Cam Refeniw i Sicrhau Tai Safonol' (dangosodd y dadansoddiad cyllido ym mhapur y Gweinidog bod incwm o £40,000 yn ystod 2010-11 ar gyfer y Cam Refeniw i Sicrhau Tai Safonol, ond yn y tabl ar y Prif Grŵp Gwariant a roddwyd i'r Pwyllgor hefyd, dangosir bod £146,000 wedi'i ddyrannu ar gyfer hyn);
ch) Pa asesiad a wnaed o'r risg y byddai'r toriadau mewn gwariant cyhoeddus o fewn maes polisi'r Gweinidog yn cael effaith anghymesur ar rai grwpiau o bobl, er enghraifft menywod, plant neu bobl sy'n byw mewn tlodi;
d) Sut yr ystyriwyd yr angen i weithredu ymrwymiadau cynaliadwyedd Llywodraeth Cymru wrth ddyrannu adnoddau;
dd) Pa asesiad a wnaed o effaith y toriad yng nghyllideb y Grant Tai Cymdeithasol, o ran darparu tai fforddiadwy yn y tymor byr a'r hirdymor;
e) Pa ddarpariaeth a wnaed ar gyfer gwariant cyfalaf ar dai cymdeithasol pe bai'r Ymddiriedolaeth Buddsoddi Mewn Tai yng Nghymru yn aflwyddiannus;
f) Sut y rhagwelwyd y byddai'r toriad mewn gwariant ar ddigartrefedd yn effeithio ar weithredu'r cynllun digartrefedd ac a oedd y Dirprwy Weinidog yn credu y gallai'r toriad hwn gynyddu'r costau yn yr hirdymor mewn gwirionedd pe bai mwy o bobl yn ddigartref o ganlyniad i hyn;
ff) A yw'r Dirprwy Weinidog yn credu y bydd y toriad (mewn termau real) yn y gyllideb Lwfans Atgyweiriadau Mawr yn effeithio ar allu landlordiaid cymdeithasol i fodloni'r Safon ar gyfer Ansawdd Tai Cymru;

g) Sut y bydd y Dirprwy Weinidog yn monitro effaith y gostyngiad yn yr arian ar gyfer y rhaglen Cefnogi Pobl (o ran ansawdd y gwasanaeth a ddarperir);

ng) A oedd nod strategol y Dirprwy Weinidog ar gyfer tai o ansawdd da yn y sector rhentu preifat yn cydweddu â'i phenderfyniad i leihau'r cyllid ar gyfer ardaloedd adnewyddu tai;

h) Pam fod y Dirprwy Weinidog wedi penderfynu canolbwyntio'r buddsoddiad cyfalaf ar Fannau Adnewyddu Strategol a pha ganlyniadau roedd yn gobeithio eu cael drwy'r dull hwn;

i) A allai'r Dirprwy Weinidog roi enghreifftiau i'r Pwyllgor o ble y cafwyd arbedion drwy weithio gyda phartneriaid y prosiect etifeddiaeth i ganfod ffyrdd o gyflenwi rhaglenni mewn modd mwy cost-effeithiol;

l) A oedd y Dirprwy Weinidog yn ystyried sefydlu rhagor o drefniadau rhannu gwasanaethau â sefydliadau'r sectorau cyhoeddus a phreifat neu'r trydydd sector fel ffordd o sicrhau rhagor o arbedion effeithlonrwydd.

**Rhagor o wybodaeth i'w darparu gan y Dirprwy Weinidog dros Dai**

6. Addawodd y Gweinidog y byddai'n rhoi nodyn i'r Pwyllgor ar y rhaglen Arbed.

**Materion sy'n peri pryder penodol i'r Aelodau, a gododd yn eu sesiwn craffu ar waith y Dirprwy Weinidog dros Dai**

***Y Grant Tai Cymdeithasol***

7. Mynegodd yr Aelodau bryderon ynghylch y ffaith bod y cyllid ar gyfer y Grant Tai Cymdeithasol yn gostwng £31 miliwn, sef gostyngiad o 31 y cant. Mae hyn yn golygu bod y Gweinidog yn bwriadu adeiladu llai o unedau.[1]

8. Credai'r Aelodau y gallai gostyngiad o'r fath olygu goblygiadau difrifol mewn perthynas ag adnewyddu economaidd a chymdeithasol o fewn cymunedau. Credai'r Aelodau hefyd bod gallu cael gafael ar dai fforddiadwy'n fater hanfodol, sydd â chanlyniadau eang ar gyfer iechyd, tlodi plant, ac ati.

9. Wrth ddod i'r canlyniad hwn, nododd yr Aelodau fod Llywodraeth Cymru'n bwriadu lansio'r Ymddiriedolaeth Buddsoddi mewn Tai yng

---

[1] CC(3)-17-10 Papur 1

Nghymru ar ddechrau 2011. Byddai'r Ymddiriedolaeth yn buddsoddi'n uniongyrchol mewn tai cymdeithasol, gan gynnwys eiddo ar les i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (LCC), ac yn casglu arian drwy roi bondiau i sefydliadau, fel cronfeydd pensiwn. Ei amcan fyddai hyrwyddo buddsoddi marchnad gyfalaf mewn amrywiaeth ehangach o fentrau na dim ond tai fforddiadwy dan berchnogaeth sefydliadau tai, a byddai'n cynnwys mentrau dros dro, mentrau rhent marchnad neu fentrau 'rhentu i brynu'. Mae tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru'n nodi:

> "if successful, the Welsh Housing Investment Trust could help deliver new affordable homes, at a time when our Social Housing Grant programme is reducing. The Regeneration Investment Fund for Wales was launched recently which follows similar principles to increase investment in regeneration."[2]

10. Fodd bynnag, roedd yr Aelodau'n dal i bryderu na fyddai'r tai fforddiadwy y mae potensial i'r Ymddiriedolaeth eu darparu yn gwneud iawn am golli'r tai fforddiadwy a ddarparwyd yn flaenorol oherwydd y toriad yn y cyllid o fewn y Grant Tai Cymdeithasol. Nododd yr Aelodau hefyd fod Prif Weithredwr Tai Cymdeithasol Cymru wedi nodi, mewn ymateb i gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru:

> "Today's announcement that Social Housing Grant(SHG) in Wales will be cut by 30% next year, reducing the budget to just over £69m with proposed cuts of 15% and then 20% for the following two years comes as a bitter blow to the sector… We knew after the publication of the Comprehensive Spending Review that capital spending for the Assembly Government would be under massive pressure so as a sector we realise the importance of being innovative to ensure we build more affordable homes for the thousands of people currently on housing waiting lists."[3]

11. Roedd yr Aelodau'n falch ei bod yn ymddangos bod y Gweinidog wedi gwneud pob ymdrech i ddiogelu gwasanaethau rheng flaen. Nododd y Pwyllgor, er enghraifft, y sylwadau a wnaed gan Reolwr Gyfarwyddwr Gofal a Thrwsio Cymru:

---

[2] CC(3)-17-10 Papur 1
[3] Ymateb Catrefi Cymunedol Cymru i gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru: http://www.chcymru.org.uk/chc_dev_final/newyddion/latest-news/2010/chc-news/en/chc-respond-to-the-wag-draft-budget.cfm

> "We are delighted to see that the Rapid Response Adaptations (RRAP) capital programme will be protected in full, and the recognition within the draft budget that this programme helps enable older people to live independently in their own homes, at the same time saving money in Health and Social Care by reducing the need for residential care and hospital treatment, as well as speeding up discharge from hospital. Our own estimate is that the Rapid Response Adaptations Programme saves £7.50 for every £1 spent… From the draft budget figures and commentary, we are also optimistic that the revenue streams that help fund front line Care & Repair services across Wales will be minimally impacted."[4]

12. Serch hynny, mae'r Aelodau'n dal i bryderu y gallai'r gostyngiad yn y Grant Tai Cymdeithasol (y credai'r Aelodau oedd yn rhan gymharol fach o gyllideb lawn Llywodraeth Cymru) arwain at ganlyniadau eang ar draws adrannau.

[4] Ymateb Tai Cymdeithasol Cymru i gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru: http://www.chcymru.org.uk/chc_dev_final/newyddion/latest-news/2010/chc-news/en/chc-respond-to-the-wag-draft-budget.cfm

## 2. Materion a godwyd gyda'r Gweinidog dros Dreftadaeth

13. Wrth graffu ar waith y Gweinidog, gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad o'r materion a ganlyn a rhagor o fanylion yn eu cylch:

a) Pa gamau a gymerwyd i nodi'r blaenoriaethau refeniw cyffredinol o fewn adran y Gweinidog, a pha newidiadau i'r gwasanaethau a gefnogwyd gan adran y Gweinidog a ragwelwyd, o gofio graddfa'r gostyngiadau mewn cyllid dros y tair blynedd nesaf;
b) A all y Gweinidog roi manylion yr 'asesiad trylwyr o'r blaenoriaethau' a gynhaliwyd gan ei adran, ac amlinellu sut y defnyddiwyd yr asesiad hwn i ddyrannu cyllid cyfalaf ar draws ei adran;
c) A all y Gweinidog roi manylion y ffrydiau gwaith a'r trefniadau cydweithio newydd y cyfeirir atynt yn nogfen naratif y gyllideb ddrafft, gan gynnwys yr amserlen ar gyfer eu rhoi ar waith;
ch) Sut mae'r Gweinidog yn bwriadu nodi a mesur effeithiolrwydd a chanlyniadau ei flaenoriaethau strategol, ac felly effeithiolrwydd y dyraniadau a'r arbedion a wnaeth yn y gyllideb i'w gwneud yn gydnaws â'r blaenoriaethau hyn;
d) A all y Gweinidog roi manylion lle byddai'r gostyngiadau mewn cyllid refeniw a chyllid cyfalaf yn digwydd, ac ymysg pa sefydliadau (ee Cyngor Celfyddydau Cymru, Canolfan Mileniwm Cymru a'r Ardd Fotaneg Genedlaethol), o fewn Maes Rhaglenni Gwariant y sector celfyddydau;
dd) A yw'r Gweinidog yn hyderus ei fod wedi dyrannu digon o gyllid refeniw i'r sefydliadau y mae wedi'u cefnogi o dan Faes Rhaglenni Gwariant y sector celfyddydau (fel y Cyngor Celfyddydau a Chanolfan Mileniwm Cymru) i alluogi gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol i ffynu yng Nghymru yn unol ag ymrwymiad *Cymru'n Un* i ddarparu 'profiad celfyddydol a diwyllianol o ansawdd da' i bawb;
e) A yw'r Gweinidog wedi asesu (o dan y Maes Gwariant ar gyfer Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd) effaith ei gynigion ar y grantiau a roddir gan CyMAL i wasanaethau llyfrgell ac amgueddfeydd ledled Cymru; ac ar weithgaredd yr Amgueddfa Genedlaethol a'r Llyfrgell Genedlaethol);
f) A fydd cynigion y Gweinidog (o dan y Maes Rhaglenni Gwariant ar gyfer chwaraeon a gweithgaredd corfforol, a'r gostyngiad

mewn cyllid ar gyfer Chwaraeon Cymru) yn cael unrhyw effaith ar gyflawni'r dyheadau yn y strategaeth *Creu Cymru Egnïol* a'r amcan yn *Cymru'n Un* i annog mwy o gyfranogiad gan bobl o bob oed mewn chwaraeon;

ff) A all y Gweinidog roi rhagor o fanylion ynghylch goblygiadau cyllido'r strategaeth newydd ar gyfer y Gymraeg ac egluro sut roedd wedi cyfrifo bod angen gwneud cynnydd o 2 y cant yng nghyllid Cronfa Cymru Ddwyieithog i weithredu'r strategaeth hon;

g) A all y Gweinidog roi manylion sut y cyfrifodd y costau ar gyfer sefydlu swydd Comisiynydd y Gymraeg, yn enwedig o gofio bod y Pwyllgor Cyllid ym mis Awst 2010 wedi nodi bod diffyg manylion ar gael o ran hynny;

ng) A all y Gweinidog ymhelaethu ar y sylwadau (yn nogfen naratif y gyllideb ddrafft ac yn ei bapur i'r Pwyllgor) y bydd cyllid Cadw'n cael ei 'warchod rhywfaint'; ac a yw'n rhagweld y bydd y gostyngiadau yng nghyllideb y Maes Rhaglenni Gwariant hwn yn cael unrhyw effaith ar amgylchedd hanesyddol Cymru ac ar waith Cadw;

h) A yw'r adolygiad o gynllun mynediad am ddim Cadw wedi effeithio ar y dyraniadau cyllid ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol ac a allai gadarnhau y bydd y cynllun mynediad am ddim i safleoedd Cadw'n parhau;

i) A all y Gweinidog roi enghreifftiau penodol o ble na fu'n bosibl parhau i ariannu pob un o'r prif raglenni [twristiaeth], o gofio y byddai'r gyllideb dwristiaeth gyffredinol yn cael ei gostwng 9.8 y cant rhwng 2010-11 a 2013-14;

l) A yw disgwyliad y Gweinidog y byddai mwy o arian loteri ar gael i Gymru ar ôl y Gemau Olympaidd yn 2012 wedi cael ei adlewyrchu mewn unrhyw ffordd yn nyraniadau'r gyllideb ar gyfer 2012-13 neu 2013-14;

ll) A all y Gweinidog roi enghreifftiau penodol o'r rhaglenni celfyddydol a chwaraeon y bydd disgwyl iddynt gyfrannu at ystod o raglenni'r Llywodraeth ar draws gwahanol bortffolios; ac a all amlinellu sut mae effaith trawsbynciol y rhaglenni celfyddydol a chwaraeon wedi cael ei adlewyrchu yng nghyllideb ddrafft gyffredinol Llywodraeth Cymru a'r blaenoriaethau strategol;

m) Sut mae ystyriaethau cyfle cyfartal a chynaliadwyedd wedi effeithio ar sut y lluniwyd y gyllideb ddrafft hon ac ar y

dyraniadau penodol o fewn Meysydd Rhaglenni Gwariant y Gweinidog.

**Rhagor o wybodaeth i'w darparu gan y Gweinidog dros Dreftadaeth**

14. Cytunodd y Gweinidog i roi nodyn i'r Aelodau ar ostyngiadau Llywodraeth y DU yn y cyllid ar gyfer 'Visit Britain', a'r canlyniadau a ragwelir yn dilyn gostyngiad o'r fath yng Nghymru.

**Materion sy'n peri pryder penodol i Aelodau, a gododd yn eu sesiwn craffu ar waith y Gweinidog dros Dreftadaeth**

***Deialog o flaen llaw gyda'r Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ynghylch canlyniadau'r toriadau mewn cyllid***

15. Nododd y Gweinidog ei fod wedi ystyried y trafodaethau â phob corff a noddir gan Lywodraeth Cymru a'r asesiad manwl o'r pwysau sy'n eu hwynebu wrth nodi'r blaenoriaethau refeniw cyffredinol o fewn ei adran.[5]

16. Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog hefyd y byddai effaith y gostyngiadau mewn cyllid yn fater i'r sefydliadau unigol ei ddatgan yn y misoedd nesaf os bydd newidiadau.[6] Eglurodd swyddog o Lywodraeth Cymru:

> "AGSBs have only just been told about their budget allocations for the next three years, so in terms of the changes in service provision that will arise from reductions in budgets, they're only now beginning to work through what this will mean. So it will be some time before we see what the end result will be in terms of services delivered."[7]

17. Roedd yr Aelodau'n cydnabod na allai'r Gweinidogion roi amcangyfrifon cywir i'r cyrff o unrhyw ostyngiadau posibl yn eu cyllid, cyn cyhoeddi fersiwn terfynol cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, daeth yr Aelodau i'r casgliad (yn ystod y trafodaethau y dywedodd y Gweinidog a gafwyd gyda'r cyrff) y gellir bod wedi gofyn iddynt amlinellu canlyniadau posibl ystod o wahanol doriadau yn y gyllideb, i gynorthwyo Llywodraeth Cymru wrth benderfynu ar raddfa'r toriadau i'r cyllid. Roedd yr Aelodau'n pryderu na allai'r Llywodraeth

[5] CC(3)-17-10 Papur 2
[6] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 24 Tachwedd 2010
[7] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 24 Tachwedd 2010

ddatgan beth fyddai canlyniadau toriadau o'r fath heb ddeialog o'r fath, nac a fyddai toriadau llai (neu fwy) wedi sicrhau canlyniadau a fyddai'n addas ar gyfer eu hamcanion strategol. Roedd yr Aelodau o'r farn hefyd y byddai deialog o'r fath o flaen llaw wedi galluogi'r cyrff i ganfod yn gynt beth fyddai effaith y gostyngiadau mewn cyllidebau ar gyflenwi gwasanaethau.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, wrth gynnal deialog â'r cyrff y mae'n eu noddi ynghylch y trefniadau cyllido posibl yn y dyfodol, yn sicrhau ei fod yn gallu nodi amcangyfrifon dangosol ar gyfer canlyniadau posibl toriadau neu gynnydd yn y cyllid ar gyfer y cyrff hynny.**

***Cyllid refeniw ar gyfer y sector celfyddydol***

18. Roedd yr Aelodau'n falch bod y Gweinidog wedi ceisio blaenoriaethu gwasanaethau rheng flaen drwy ei gyllideb. Mynegodd yr Aelodau'r ffaith ei bod yn hynod bwysig bod cefnogaeth ar gael i gyrff fel Chwaraeon Cymru, Cadw, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, a'r llyfrgelloedd a'r amgueddfeydd eraill wrth weithredu eu hamcanion ar gyfer pobl Cymru.

19. Nododd yr Aelodau, yn benodol, fod y cyllid refeniw ar gyfer y sector celfyddydol wedi gostwng 4.6 y cant rhwng 2010-11 a 2011-12 (neu 6.4 y cant mewn termau real, gan ystyried chwyddiant).

20. Yn ei ymgynghoriad i 'hygyrchedd digwyddiadau celfyddydol a diwylliannol yng Nghymru', roedd yr Aelodau wedi nodi amrywiaeth o dystiolaeth a oedd yn mynegi pryder ynghylch canlyniadau posibl gostyngiad sylweddol yn y cyllid ar gyfer y sector celfyddydol. Er enghraifft, dywedodd Cyngor Celfyddydol Cymru:

> "if we have to face the prospect of further cuts, then we will lose the support of the arts sector that has gone with us,"[8]

tra dywedodd Opera Canolbarth Cymru:

> "It would be a tragedy if the Welsh Government were to use the fact that ACW has created "headroom" within its RFO portfolio

[8] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 22 Medi 2010

to allow modest increases where fully justified as a reason for imposing larger cuts."[9]

21. Roedd Canolfan Gelfyddydol Llantarnam Grange hefyd yn cytuno. Dywedodd:

> "If the ACW have to revisit its RFO list and make further reductions, it brings into question the underlying premise of the review."[10]

Yn yr un modd, dywedodd Theatr Brycheiniog:

> "To reduce funding now would effectively "pull the rug" from under the feet of ACW when they have acted openly and responsibly to secure a strategic future for the arts in Wales."[11]

22. Pwysleisiodd tystion eraill y ffaith nad oedd lle ar ôl i sefydliadau sy'n cael cyllid refeniw wneud rhagor o arbedion effeithlonrwydd. Er enghraifft, dywedodd Cyngor Sir Powys:

> "there is a critical point below which smaller organisations in particular have nowhere left to make efficiency savings."[12]

Yn yr un modd, dywedodd Oriel Davies Gallery:

> "the situation is now such that there is no more fat left on the bone. If for example Oriel Davies had to continue to remain on standstill or even have a cut to its funding this would seriously impact upon its services."[13]

23. Pryder arall a fynegwyd gan dystion eraill, fel Theatr Genedlaethol Cymru,[14] oedd y byddai toriadau mewn cyllid cyhoeddus ar gyfer y celfyddydau yn cael effaith negyddol ar economi ehangach Cymru. Er enghraifft, dywedodd National Theatre Wales:

---

[9] CC(3) AC 35
[10] CC(3) AC 38
[11] CC(3) AC 57
[12] CC(3) AC 51
[13] CC(3) AC 70
[14] CC(3) AC 41

"[the] social and economic benefits of a vibrant arts culture are statistically and empirically proven, and the biggest losers in stifling cultural activity are the people of Wales",[15]

tra dywedodd Opera Cenedlaethol Cymru:

"in comparison to the rest of Assembly Government expenditure, the arts budget is a tiny proportion. Yet a 10% or even 20% cut to ACW cannot offer anything meaningful in redistribution to other departments such as health, education or social justice. However, in terms of its effect on the range, scale, quality and accessibility of arts provision in Wales, it could be catastrophic"[16]

24. Roedd aelodau'r Pwyllgor felly'n falch bod y Gweinidog wedi datgan, er y byddai cyllid y Cyngor Celfyddydau yn gostwng 4.6 y cant o'r llinell sylfaen bresennol:

"the administration of the Arts Council will take a 12-per-cent hit, while front-line services over the three years will be affected by around 4 per cent."[17]

25. Nododd yr Aelodau hefyd fod Cyngor Celfyddydau Cymru wedi datgan, yn dilyn cyhoeddi'r gyllideb ddrafft:

"we are delighted that a distinctive policy towards the arts has been understood and followed by the Welsh Assembly Government and that, subsequently, Arts Council of Wales will be able to implement the outcomes of our Investment Review strategy."[18]

26. Tra roedd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn rhybuddio:

"whilst the sector is encouraged that there is continued support to sustain a strong arts sector via the Arts Council and others we hope that the Welsh Assembly Government will ensure that any cuts are made from within operational budgets rather than

[15] CC(3) AC 49
[16] CC(3) AC 62
[17] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 24 Tachwedd 2010
[18] Cyngor Celfyddydau Cymru, ymateb i'r gyllideb ddrafft 2011-12

from the direct funding  provided to voluntary arts organisations and programmes."[19]

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod gostyngiadau yn y cyllid ar gyfer cleientiaid Cyngor Celfyddydau Cymru'n sy'n cael cyllid refeniw yn cael eu cyfyngu i tua 4 y cant dros gyfnod o dair blynedd, fel y nodwyd gan y Gweinidog dros Dreftadaeth.**

27. Nododd yr Aelodau hefyd bod dau dyst yn eu hymchwiliad i 'hygyrchedd gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol yng Nghymru' wedi awgrymu bod posibilrwydd y gallai Cyngor y Celfyddydau sicrhau arbedion effeithlonrwydd o fewn ei brosesau gweinyddol. Dywedodd Amgueddfa Pont-y-pŵl:

> "there are several areas of wastage of money within the Arts Council (e.g. 3 sets of offices is rather overkill) itself as well as what they fund."[20]

Yn yr un modd, dywedodd Bob Innes:

> "public funding for the arts is… not to fund what I think is unnecessary offices."[21]

28. Felly, penderfynodd yr Aelodau ei bod yn addas gofyn i Gyngor Celfyddydau Cymru sicrhau arbedion effeithlonrwydd o fewn ei brosesau gweinyddol, yng ngoleuni'r angen i sicrhau arbedion yn yr hinsawdd economaidd bresennol.

29. Nododd yr Aelodau hefyd fod nifer o dystion yn eu hymchwiliad i 'hygyrchedd gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol yng Nghymru' wedi awgrymu y gellid amseru'r toriadau i gyllid cyhoeddus ar gyfer cyflenwi gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol yng Nghymru i gyd-ddigwydd ag ailgyflwyno (a chynyddu) y cyllid loteri ar gyfer y celfyddydau yng Nghymru, yn dilyn gemau Olympaidd 2012.

30. Cytunodd y Gweinidog dros Dreftadaeth. Dywedodd:

> "I do not know what the future of lottery funding after the Olympic Games will be, but the expectation is that there will be an increase and that some areas, such as the arts and sports,

[19] CC(3) 18 10 Papur 9
[20] CC(3) AC 18
[21] CC(3) AC 77

> will benefit. I hope that that will mitigate some of the cuts in the budget."[22]

31. Yn olaf, nododd yr Aelodau bod nifer sylweddol o'r tystion yn eu hymgynghoriad i 'hygyrchedd gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol yng Nghymru' wedi mynegi pryder ynghylch dyraniad daearyddol cyllid ledled Cymru, o ganlyniad i adolygiad buddsoddi Cyngor Celfyddydau Cymru. Er enghraifft, dywedodd Equity:

> "the Eastern half of Wales, the Greater Gwent area and the Valleys will no longer have indigenous professional theatre provision",[23]

tra dywedodd Cymdeithas Ddinesig y Fenni a'r Cylch:

> "the ACW Investment Review proposals will effectively remove access to theatre in the community across a large area of SE Wales."[24]

32. Yn yr un modd, gofynnodd Cymdeithas Celfyddydau Perfformio Cymru pam y dylai nifer helaeth o bobl yn nwyrain Cymru gael eu hamddifadu o gael theatr mewn addysg,[25] tra roedd Cyngor Sir Powys yn teimlo bod Powys wedi cael ei heffeithio'n sylweddol o ganlyniad i'r adolygiad buddsoddi.[26] Cytunodd Jon Gower â'r sylwadau hyn, a dywedodd fod penderfyniad Cyngor y Celfyddydau i beidio ag ariannu Theatr Gwent yn gadael bwlch mawr yn y ddarpariaeth gelfyddydol yn y De-ddwyrain, fel y byddai Theatr Powys yn y Canolbarth.[27]

33. Fodd bynnag, nododd yr Aelodau hefyd fod papur Cyngor y Celfyddydau, 'Asesu a Gwneud Penderfyniadau', yn nodi mai un o fwriadau'r adolygiad buddsoddi oedd cefnogi rhwydwaith o sefydliadau sy'n cael cyllid refeniw ledled Cymru gyfan.[28] Cytunodd Llywodraeth Cymru yn ei thystiolaeth ysgrifenedig fod y Cyngor wedi pwysleisio bod gofal mawr wedi'i gymryd yn ystod ei thrafodaethau i sicrhau bod cydbwysedd o gleientiaid refeniw, cyn belled â bod

---

[22] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 24 Tachwedd 2010
[23] CC(3) AC 58.
[24] CC(3) AC 13
[25] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 6 Hydref 2010, Para 99
[26] CC(3) AC 51
[27] CC(3) AC 53
[28] Cyngor Celfyddydau Cymru, Adolygiad Buddsoddi: Asesu a Gwneud Penderfyniadau, Rhagfyr 2009

hynny'n bosibl, yn cynrychioli pob ffurf gelfyddydol a lleoliad daearyddol.[29]

34. Roedd yr Aelodau'n ymwybodol nad oedd ailddyraniad daearyddol y cyllid, o ganlyniad i adolygiad buddsoddi Cyngor y Celfyddydau, yn gysylltiedig â chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru. Serch hynny, roedd yr Aelodau'n ymwybodol y dylid ystyried yr egwyddor o ystyried effaith ddaearyddol y toriadau i'r cyllid refeniw fel rhan o unrhyw newidiadau i'r cyllid fydd yn anghenrheidiol o ganlyniad i gyllideb Llywodraeth Cymru.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda'i phartneriaid (fel awdurdodau lleol a Chyngor Celfyddydau Cymru) i'w galluogi i ganfod yr ardaloedd daearyddol yng Nghymru lle mae mynediad pobl at weithgareddau celfyddydol a diwylliannol drwy ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn arbennig o gyfyngedig.**

35. Rydym yn rhagweld y byddai Llywodraeth Cymru yna'n annog ei phartneriaid i ddefnyddio gwybodaeth o'r fath yn strategol i ddatblygu mwy o fynediad at weithgareddau celfyddydol a diwyllianol mewn ardaloedd lle mae mynediad at weithgareddau celfyddydol a diwylliannol drwy ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn arbennig o gyfyngedig.

### *Buddsoddi cyfalaf o fewn y sector celfyddydol*

36. Nododd yr Aelodau, hefyd, fod buddsoddi cyfalaf o fewn y sector celfyddydol wedi gostwng yn sylweddol, o £1,090,000 yn 2010-11, i £455,000 yn 2011-12. Yn wir, roedd cyllid cyfalaf o fewn y Prif Grŵp Gwariant Treftadaeth wedi gostwng o £18,622,000 i £14,843,000.

37. Er eu bod yn pryderu ynghylch graddfa'r gostyngiad hwn, nododd yr Aelodau hefyd fod gostyngiad o'r fath yn weddol gyson â mwyafrif y dystiolaeth a roddwyd i'r ymchwiliad i hygyrchedd gweithgareddau celfyddydol a diwyllianol yng Nghymru. Roedd tystiolaeth o'r fath yn ystyried bod buddsoddi cyfalaf mewn adeiladau a lleoliadau newydd ar gyfer gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol yn llai o flaenoriaeth na galluogi datblygiad

[29] CC(3) AC 43a

gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol. Er enghraifft, nododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:

> "arts and cultural activities can take place in places other than theatres, galleries and arts centres. School halls, village halls, leisure centres, even out on the street can all be suitable locations."[30]

38. Yn yr un modd, awgrymodd Trac nad yw'r arian ar gael ac nad oes dymuniad i gael tŷ opera ym mhob tref, ac nid yw'n credu mai cyllido gweithgaredd celfyddydol a diwylliannol drwy'r lleoliadau yw'r dull mwyaf effeithiol o sicrhau cyfranogiad yn y celfyddydau ledled Cymru, na mynediad atynt.[31]

39. Yn wir, cefnogodd Fforwm Celfyddydau Powys y dull o strwythuro darpariaeth ddiwylliannol o gwmpas anghenion cymunedau, yn hytrach nag adeiladau.[32] Yn yr un modd, dywedodd Theatr Felin Fach:

> "it's not bricks and mortar that are important, but the information, the skills and the opportunities which are available through these cultural services"[33]

40. Yn yr un modd, roedd Bob Innes yn pryderu y byddai'r dymuniad i gael lleoliadau celfyddydol mawr yn effeithio ar ddod â gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol i bobl Cymru[34] Awgrymodd Celfyddydau Gwirfoddol Cymru, mewn cyfnod o gyllid cyfyngedig, pe na bai cynhyrchu celfyddyd a diwylliant drwy gymunedau'n cael ei flaenoriaethu dros ddatblygu lleoliadau, byddai perygl na fyddai unrhyw gynnyrch i'w roi ynddynt.[35] Mynegodd Cyngor Gwynedd bryderon tebyg, a dywedodd hefyd y byddai adeiladu lleoliadau newydd yn arwain at gostau uwch yn yr hirdymor, oherwydd byddai'n rhaid cynnal y lleoliadau.[36]

41. Roedd yr Aelodau'n parhau i bryderu bod angen cynnal a chadw'r lleoliadau sy'n bodoli eisoes. Fodd bynnag, credai Aelodau'r Pwyllgor ei bod yn addas rhoi blaenoriaeth strategol uwch i ddiogelu'r cyllid refeniw ar gyfer y sector celfyddydau nag i fuddsoddiad cyfalaf mewn

---

[30] CC(3) AC 66
[31] CC(3) AC 39
[32] CC(3) AC 44
[33] CC(3) AC 50
[34] CC(3) AC 77
[35] RoP 13/10/10 Celfyddydau Gwirfoddol Cymru P29
[36] CC(3) AC 74

adeiladau neu leoliadau newydd, fel y nodir yng nghyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru.

### *Cyllid refeniw ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg*

42. Gofynnodd Joyce Watson AC, aelod o'r Pwyllgor, i'r Gweinidog am fanylion sut roedd wedi cyfrifo'r costau o sefydlu'r swydd hon, yn enwedig yng ngoleuni'r farn a fynegodd y Pwyllgor Cyllid ym mis Awst 2010 bod diffyg manylion ar gael yn hynny o beth."[37]

43. Datganodd y Gweinidog dros Dreftadaeth:

> "Overall, the policy remains that the cost of establishment of the Commissioner will be funded from within the funds currently made available to the Welsh Language Board. It is recognised that there will be transitional costs and the budget has been flatlined to enable us to respond to that."[38]

44. Roedd yr Aelodau'n parhau i bryderu ei bod yn ymddangos mai ychydig o fanylion sydd ar gael i egluro a fyddai cael cyllideb sy'n aros yn ei hunfan o reidrwydd yn addas i dalu'r 'costau trosiannol' ar gyfer sefydlu swydd Comisiynydd y Gymraeg a nodwyd gan y Gweinidog.

**Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru roi disgrifiad clir o'r costau a ddisgwylir ar gyfer sefydlu swydd Comisiynydd y Gymraeg.**

### *Marchnata Cymru fel cyrchfan ar gyfer twristiaid*

45. Nododd yr Aelodau fod dull Llywodraeth Cymru o farchnata Cymru wedi'i dargedu'n bennaf at y '9 allan o 10[39] o dwristiaid sy'n ymweld o Gymru a rhannau eraill o'r DU, er nad yw'r twristiaid o dramor yn cael eu hanwybyddu. Nododd yr Aelodau fod Llywodraeth Cymru wedi ceisio denu newyddiadurwyr o dramor i ymweld â Chymru ar y sail a ganlyn:

> "people – us – we tend to believe what journalists write about a country, far more than what the Government says about its own country."[40]

---

[37] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 24 Tachwedd 2010
[38] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 24 Tachwedd 2010
[39] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 24 Tachwedd 2010
[40] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 24 Tachwedd 2010

46. Ystyriodd yr Aelodau a ellid gwneud mwy o ymdrech i farchnata Cymru dramor, gan nodi effaith nifer gyfyngedig y Cymry sy'n byw mewn gwledydd fel yr UDA (o'i gymharu â'r nifer llawer uwch o bobl o Iwerddon sy'n byw yn yr UDA).

47. Credai'r Aelodau y dylai Llywodraeth Cymru barhau i ddatblygu strategaeth eang i hyrwyddo Cymru, a fyddai'n ystyried marchnata'r wlad dramor ac o fewn cymunedau lleol.

## 3. Materion a godwyd gyda'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

48. Wrth graffu ar waith y Gweinidog, gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad o'r materion a ganlyn a rhagor o fanylion yn eu cylch:

a) Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i nodi'r blaenoriaethau o fewn ei adran a fydd yn llywio'r penderfyniadau ar ddyraniadau'r gyllideb;
b) Sut mae'r Gweinidog yn bwriadu nodi a mesur effeithiolrwydd a chanlyniadau ei flaenoriaethau strategol, ac felly effeithiolrwydd y dyraniadau a wnaeth yn y gyllideb sy'n gydnaws â'r blaenoriaethau hyn;
c) Pa asesiad a wnaeth y Gweinidog o'r risg y byddai'r toriadau mewn gwariant cyhoeddus o fewn ei faes polisi yn cael effaith anghymesur ar rai grwpiau o bobl, er enghraifft menywod, plant neu bobl sy'n byw mewn tlodi;
ch) Pa gyfran o'r toriadau a wnaed o fewn cyllideb weinyddu ei adran;
d) Pa gamau y mae'n eu cymryd i sicrhau bod y gwariant ar Cymunedau yn Gyntaf yn ateb amcanion strategol a chanlyniadau'r rhaglenni a fwriedir;
dd) Sut mae'r Gweinidog wedi sicrhau bod y cyllid yn y gyllideb ar hyn o bryd ar gyfer menter gymdeithasol yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon;
e) Pam fod y Gweinidog wedi penderfynu rhoi blaenoriaeth i wasanaethau cynghori (dros gyngor a chymorth penodol ar y dreth gyngor) a sut y byddai hyn yn helpu i ateb yr amcanion strategol a amlinellir yn ei Strategaeth Cynhwysiant Ariannol;
f) Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i gynnal ar effaith y toriadau mewn cyllid i'r trydydd sector, a lle mae'n rhagweld y gellir gwneud rhagor o arbedion;
ff) Pa drafodaethau a gynhaliwyd ar draws y Llywodraeth i sicrhau y rhoddir blaenoriaeth ddigonol o fewn y gyllideb ddrafft i weithredu'r strategaeth drawsbynciol, *Yr Hawl i fod yn Ddiogel* (rhaglen ar draws y Llywodraeth i fynd i'r afael â phob math o drais yn erbyn menywod);
g) Pa effaith y bydd y gostyngiad o £1.17 miliwn ar gyfer y Gwasanaethau Tân ac Achub yn debygol o'i gael;

ng) Pa drafodaethau y mae wedi'u cael â'i gyd-Weinidogion i sicrhau y caiff yr adnoddau ariannol eu targedu'n effeithiol i ateb ei amcanion strategol ar gyfer cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant;

h) Pa asesiad a wnaeth y Gweinidog o'r effeithiau y gallai'r toriadau yn y dyraniad cyllideb cyfalaf ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ei gael yn y tymor byr a'r hirdymor.

49. Nododd yr Aelodau hefyd fod y CGGC wedi nodi yn ei dystiolaeth ysgrifenedig:

> "[we are] asking the Communities and Culture Committee to ascertain why some Actions are being far less favourably treated than others and consider the impact this may have on those organisations and services funded via these Actions."[41]

50. Yn benodol, nododd y CGGC fod ganddo ddiddordeb mewn cael eglurhad o'r gostyngiadau mewn gwariant ar gyfer y camau gweithredu refeniw a ganlyn:

- "Third Sector – the 9.7% decrease in funding for year 3
- Communities First – the 11.4% decrease in year 2
- Social Enterprise – the 2.9%, then 13.5%, then 15.6% decrease each year
- Local Government Scrutiny and Standards – the decreases, year on year, of 6.1%, 5.1% and 7.2%.
- The Actions in Equality Diversity and Inclusion, averaging decreases of 2.9%, 3.6% and 6.7% year on year."[42]

51. Dangosodd y CGGC ddiddordeb hefyd mewn cael eglurhad o'r gostyngiadau mewn gwariant yn y dyraniadau cyfalaf a ganlyn:

- "Communities First – the complete withdrawal of funding at the end of the current financial year
- Social Enterprise – stable in year one, drops 25% in year 2 and drops a further 33.3% in year three.
- Domestic Abuse – stable in year one, drops 28.6% in year 2 and 40% in year 3.

[41] CC(3) 18 10 Papur 9
[42] CC(3) 18 10 Papur 9

– Gypsy Travellers – funding drops 20%, 12.5% and 14.3% year on year."[43]

52. Daeth tystiolaeth ysgrifenedig y CGGC i law yn dilyn sesiynau craffu llafar y Pwyllgor ar gyllideb ddrafft y Llywodraeth. Bu'r Pwyllgor yn craffu ar nifer o'r meysydd penodol sydd o ddiddordeb i'r CGGC. Er enghraifft, ymatebodd y Gweinidog i gwestiynau am effaith y toriadau ar y dyraniad cyllideb cyfalaf i Sipsiwn a Theithwyr, drwy ddweud:

> "This line has been cash heavy for many years and it has never actually been spent. We have looked at the profile versus spend and made adjustments accordingly. So, we have just reduced the top end to a more realistic spend figure… there has never been a draw down on a lot of the money, so we have profiled it. Although the line has reduced significantly, we have tested that it does not adversely affect people. I do not envisage it, but if there was a call for good-quality capital projects, I think that we could meet it within budget lines that are already set. So, we have not disproportionality attacked this line, we have reprofiled it, because there was a lot of underspend. It is just the way in which we have dealt with it strategically."[44]

53. Fodd bynnag, bydd y Pwyllgor hefyd yn cynnwys y meysydd o ddiddordeb a nodwyd gan y CGGC ym mlynyddoedd 2 a 3 y gyllideb ddrafft yn ei adroddiad etifeddiaeth. Rhagwelodd yr Aelodau y bydd hyn yn galluogi'r pwyllgor/pwyllgorau a fydd yn gyfrifol am graffu ar y pynciau o fewn cylch gwaith presennol y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant i edrych ar y meysydd sy'n peri pryder wrth graffu ar y gyllideb yn ystod y pedwerydd Cynulliad. Nodwyd y meysydd sy'n peri pryder i'r CGGC hefyd yn yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor Cyllid presennol gael ystyried a oes ganddynt oblygiadau trawsadrannol ehangach.

**Materion sy'n peri pryder penodol i'r Aelodau, a gododd yn eu sesiwn craffu ar waith y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol**

54. Nododd yr Aelodau fod penderfyniadau cyllidebol y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn seiliedig ar

---

[43] CC(3) 18 10 Papur 9
[44] CC(3)-17-10 Papur 3

flaenoriaethau'r Llywodraeth ar gyfer iechyd, addysg, sgiliau a buddiannau cyffredinol.[45]

55. Dywedodd yr Aelodau eu bod yn falch ei bod yn ymddangos bod y Gweinidog wedi ceisio diogelu gwasanaethau rheng flaen yn ei bortffolio cyllidebol.

56. Dywedodd yr Aelodau eu bod yn falch bod y cyllid i fynd i'r afael â thrais domestig wedi cael ei ddiogelu rhag y toriadau yn 2011-12, gan nodi'r sylwadau hyn gan y Gweinidog:

> "This year, I have protected the budget from any reductions in terms of that, which is pretty unique across the whole of Government. That just outlines the Government's commitment to tackling this issue."[46]

57. Dywedodd yr Aelodau hefyd, er eu bod yn pryderu ynghylch y gostyngiad mewn cyllid, roeddent yn falch y bydd rhywfaint o'r cyllid ar gyfer y Rhaglen Cymunedau, Cyfleusterau a Gweithgareddau yn aros.

---

[45] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 24 Tachwedd 2010
[46] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 24 Tachwedd 2010

## Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r sesiynau tystiolaeth lafar yn:
http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-ccc-home.htm

*24 Tachwedd 2010*

| | |
|---|---|
| Jocelyn Davies AC | Y Dirprwy Weinidog dros Dai, Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Brian Pickett | Pennaeth Cyllid – Tai ac Adfywio |
| Kath Palmer | Pennaeth Gweithrediadau Tai |
| Chris Warner | Rheolwr Cydgysylltu Polisi, yr Adran Tai ac Adfywio |
| Alun Ffred Jones AC | Y Gweinidog dros Dreftadaeth |
| Jo Jones | Cyfarwyddwr, Twristiaeth a Marchnata |
| John Howells | Cyfarwyddwr Diwylliant |
| Carl Sargeant AC | Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol |
| David Powell | Cyfarwyddwr, Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol |
| Eleanor Marks | Yr Is-adran Gymunedau |
| Owain Lloyd | Pennaeth Cyllid, Llywodraethu a Chynllunio |

## Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn: http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-ccc-home.htm

| *Sefydliad/unigolyn* | *Cyfeirnod* |
|---|---|
| Y Dirprwy Weinidog dros Dai, Llywodraeth Cynulliad Cymru | CC(3)-17-10 P1 |
| Y Gweinidog dros Dreftadaeth, Llywodraeth Cynulliad Cymru | CC(3)-17-10 P2 |
| Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cynulliad Cymru | CC(3)-17-10 P3 |
| Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru | CC(3)-18-10 P9 |